# Adolygiad Rheoleiddio - Dyfarniad Cadarnhau

## Dyddiad: Awst 2026

## Stori – J096

Yn dilyn adolygiad rheoleiddio, mae dyfarniad rheoleiddio Gorffennaf 2024 ar gyfer Stori wedi'i gadarnhau ac yn parhau i fod yn ddilys.

## Dyfarniad

| Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Mae'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn bodloni ein gofynion** |
| **Hyfywedd Ariannol** | |
| **Gwyrdd** | **Mae'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn bodloni ein gofynion** |

### Y Broses Asesu

Cynhaliwyd yr asesiad yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru 2025. Roedd yn cynnwys adolygiad bwrdd gwaith o hunanwerthusiad y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei gynllun gwella cydymffurfiaeth a metrigau hyfywedd ariannol. Ystyriwyd gwybodaeth o gyswllt rheoleiddiol arferol â'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig hefyd. Mae'r dyfarniad blaenorol yn parhau i fod ar waith ar y sail nad oes unrhyw faterion wedi dod i'r amlwg sy'n newid proffil risg y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn sylweddol.

### Hunanwerthuso - Gofynion a nodir yn Fframwaith Rheoleiddio 2025

Roeddem yn gallu dod i'r casgliad bod yr hunanwerthusiad yn bodloni'r holl ofynion a nodir yn Fframwaith Rheoleiddio 2025 yn llawn.

Mae Stori wedi cyhoeddi ei hunanwerthusiad lle gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

| | |
|---|---|
| **Nifer yr Unedau** | **152** |
| **Trosiant Blynyddol** | **£6.24m** |
| **Gerio** | **5.5%** |
| **Sicrwydd Llog** | **Amh*** |
| **Math o Landlord Cymdeithasol Cofrestredig** | **Traddodiadol** |
| **Lleoliad** | **Cymru gyfan** |

*Fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 2025, dyddiad y datganiadau ariannol diweddaraf a gyhoeddwyd.*

*Mae'r Llog Derbyniadwy yn fwy na'r Llog sy'n Daladwy yn y flwyddyn berthnasol gan arwain at sefyllfa'r Sicrwydd Llog.

Bwriad dyfarniadau rheoleiddio yw rhoi syniad i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, eu tenantiaid, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o ba mor dda y maent yn perfformio, ar adeg benodol, mewn perthynas â'r safonau rheoleiddio a osodwyd gan Weinidogion Cymru ar y canlynol:

• Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
• Hyfywedd Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar ddyfarniadau at unrhyw ddiben arall. Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gyfrifol am gyflawnder a chywirdeb yr wybodaeth a roddir i'r Rheoleiddiwr yn eu hunanwerthusiad a'u tystiolaeth ategol.

Y Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhydycar
CF48 1UZ
e-bost: rheoleiddio.tai@gov.wales

ISBN digidol 978-1-80853-208-5

Hawlfraint y Goron 2026